

Llyfryn gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni Blwyddyn 7 2026-27

**Information booklet
for year 7 Pupils and
Parents 2026-27**





Tud/Page Cynnwys/Contents

- 4 Amseroedd y Dydd/Dyddiadau Gwyliau Ysgol
- 4 Times of the School Day/School Holiday Dates
- 6 Gwisg Ysgol/School Uniform
- 8 Ffiniau'r Ysgol/School Boundary
- 9 Cwricwlwm/Curriculum
- 11 Ymddygiad Da a Chwrteisi/Courtesy and Good Behaviour
- 16 Rheolau Ysgol/School Rules
- 19 Presenoldeb yn yr Ysgol/Attendance at School
- 20 Disgyblaeth Gadarnhaol/Positive Discipline
- 22 Arbor/Arbor
- 23 Rhieni a'r Ysgol/Parents and the School
- 23 Y Gymraeg/The Welsh Language
- 24 Meddyginiaeth/Medication
- 24 Salwch a Damweiniau/Illness and Accidents
- 25 Cysylltu â'r Ysgol/Contacting the School
- 26 Gwasanaethau ac Astudiaethau Crefyddol/Assembly and Religious Studies
- 26 Iechyd a Lles/Health and Wellbeing
Offer/Equipment
- 28 Yr Adran Cynnal Dysgu/Learning Support Department
- 29 Trafnidiaeth/Transport
- 29 Gollwng a Chasglu Disgyblion/Setting Down and Collection of Pupils
- 30 Gweithgareddau Allgyrsiol
Extra Curricular Activities
- 31 Polisi Gwrth-fwlio/Anti-bullying Policy
- 33 Llais y disgybl/Pupil's voice
- 34 Rhestr wirio i rieni/Checklist for Parent





Dyddiadau Gwyliau 2026/27

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Gorffen	
Hydref 2026	Medi 2 ^{il} 2026	Hydref 26 ^{ain} 2026	Hydref 30 ^{ain} 2026	Rhagfyr 18 ^{fed} 2026
Gwanwyn 2027	Ionawr 4 ^{ydd} 2027	Chwefror 8 ^{fed} 2027	Chwefror 12 ^{fed} 2027	Mawrth 19 ^{eg} 2027
Haf 2027	Ebrill 5 ^{ed} 2027	Mai 31 ^{ain} 2027	Mehefin 4 ^{ydd} 2027	Gorffennaf 16 ^{eg} 2027

School Holiday Dates 2026/27

Term	Start	Half Term		End
		Start	Finish	
Autumn 2026	September 2 nd 2026	October 26 th 2026	October 30 th 2026	December 18 th 2026
Spring 2027	January 4 th 2027	February 8 th 2027	February 12 th 2027	March 19 th 2027
Summer 2027	April 5 th 2027	May 31 st 2027	June 4 th 2027	July 16 th 2027

Amseroedd Ysgol

8.30 – 8.55	Cofrestru
8.55 – 9.55	Gwers 1
9.55 – 10.55	Gwers 2
10.55 – 11.15	Egwyl
11.15 – 12.15	Gwers 3
12.15 – 13.15	Gwers 4
13:15 – 14.05	Cinio
14.05 – 15.05	Gwers 5

Times of the School Day

8.30 – 8.55	Registration
8.55 – 9.55	Lesson 1
9.55 – 10.55	Lesson 2
10.55 – 11.15	Break
11.15 – 12.15	Lesson 3
12.15 – 13.15	Lesson 4
13.15 – 14.05	Lunch
14.05 – 15.05	Lesson 5



Gwisg Ysgol

Ni chaniateir gwisgo gemwaith/colur yn yr ysgol. Ni chaniateir steil gwallt na lliw anghyffredin. Gwneir defnydd o synnwyr cyffredin ac fe werthfawrognw cydweithrediad rhieni gyda hyn.

Gwisg Ddyddiol

- Esgidiau lledr du plaen – dim esgidiau ymarfer nac esgidiau mawr. Dim sodlau uchel.
- Crys polo a chrys chwys swyddogol yr ysgol
 - Cot gnuog a/neu got law swyddogol yr ysgol yn unig
 - Naill ai: trowsus nefi plaen clasurol (dim jeans, chinos, flares, trowsus melfared, neu wisg chwaraeon) gyda sanau nefi plaen. Neu: sgert YGBM sydd ar gael o Ruckley's neu Class Apart gyda sanau nefi neu deits nefi. Dydy defnydd sy'n ymestyn ddim yn dderbyniol. Neu: siorts ffurfiol nefi o Ruckley's neu Class Apart.

Addysg Gorfforol – Merched

- Gemau – crys rygbi swyddogol, sgert las swyddogol, sanau glas swyddogol.
- Ymarfer Corff – crys polo gwyn swyddogol, siorts/sgort glas swyddogol.

Addysg Gorfforol – Bechgyn

- Gemau – crys rygbi swyddogol, siorts glas swyddogol, sanau glas swyddogol.
- Ymarfer Corff – crys polo gwyn swyddogol, siorts glas swyddogol.

Mae angen gosod enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn.



Cot Coat



Crys Polo Polo Shirt



Crys Chwys Sweatshirt

School Uniform

The wearing of jewellery/make-up is not allowed in school. Outrageous hairstyles and colour are not allowed. Common sense is used and the cooperation of parents would be greatly appreciated in this matter.

Daily Uniform

- Plain black leather shoes – no training shoes or boots. No high heels.
- Official school polo and sweatshirt.
- Official school fleece and/or waterproof coat only.
- Either: plain navy classic-cut trousers (no jeans, chinos, velvet trousers or sportswear) with plain navy socks. Or a YGBM skirt available from Ruckley's or Class Apart with navy socks or tights. Stretch material is not allowed. Or formal navy shorts from Ruckley's or Class Apart.

Physical Education – Girls

- Games: official school rugby shirt, official blue skirt/skort, official blue socks.
- PE: official white polo shirt, official blue shorts.

Physical Education – Boys

- Games: official school rugby shirt, official blue shorts, official blue socks.
- PE: official white polo shirt, official blue shorts.



Crys Rygbi Rugby Shirt



Siorts Shorts

All uniform must be clearly marked with pupil's name.



Sanau Socks



Crys Polo Polo Shirt



Ffiniau'r ysgol

Am resymau diogelwch, ni chaniateir i ddisgyblion fynd tu hwnt i ffiniau'r ysgol yn ystod amser egwyl y bore na'r awr ginio heb i'r ysgol dderbyn cais ysgrifenedig gan riant.

School boundary

For reasons of safety, pupils will not be allowed outside the school premises during the morning break or lunch hour unless the school has received a written request from parents.

Amser Cinio

Gall eich plentyn brynu bwyd neu ddod â brechdanau gyda nhw i'r ysgol. Mae'r ffreutur yn darparu amrywiaeth o brydau poeth ac oer, byrbrydau, brechdanau a diodydd. Archebir bwyd yn y ffreutur ac fe fydd modd i'ch plentyn gael derbynneb pe bai angen. Gallwch ychwanegu arian yn wythnosol neu drwy ddefnyddio 'Parent Pay'. Staff y gegin sydd yn gweinyddu'r system.

Lunch Time

Students may have a canteen or sandwich lunch. A good selection of hot and cold foods, snacks, sandwiches and drinks are available. Food is purchased using the ParentPay system whereby you can add money weekly or monthly onto the card. Your child is able to receive a receipt if this is needed. All administration is done by the canteen staff.



Y Cwricwlwm

Mae disgyblion Bl 7 yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau gallu cymysg ym mhob pwnc.

Mae Technoleg ac Addysg Gorfforol yn cael eu dysgu mewn grwpiau gwahanol i'r dosbarthiadau dysgu ond nid yw'r rhain yn cael eu ffurfio yn ôl gallu'r disgyblion.

Gwersi bl 7:

- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Drama
- Cerddoriaeth
- Celf
- Technoleg
- Technoleg Ddigidol
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Bwyd a Maeth
- Ffrangeg – Dysgir Sbaeneg ym Mlwyddyn 9 hefyd.
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Dawns
- Iechyd a Lles

Curriculum

Year 7 students are arranged in mixed ability form groups in which they are initially taught for all subjects.

Technology and Physical Education also have different teaching groups to the normal teaching classes but these are not formed according to ability.

Year 7 lessons are as follows:

- Welsh
- English
- Mathematics
- Science
- Drama
- Music
- Art
- Technology
- Digital Technology
- Geography
- History
- Food and Nutrition
- French – Spanish is taught in Year 9.
- Religion, Values and Ethics
- Dance
- Health and Wellbeing



Braslun o adeiladau'r ysgol
School building



Nodweddion Personol mewn Adroddiadau

Gan ein bod yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddatblygiad y disgybl cyflawn rydym hefyd yn adrodd yn ôl ar nodweddion personol eich plentyn fel yr ydym yn eu gweld yn yr ysgol. Bydd pob athro yn adrodd ar gyrhaeddiad, cynnydd ac agwedd at ddysgu.

Personal Attributes within School Reports

Since we place considerable emphasis on the development of the whole pupil we also report back on the personal attributes of your child as we see them at school. Each teacher will report on attainment, progress and attitude to learning.

Cwrteisi ac Ymddygiad Da

Nod yr ysgol yw cynnig addysg Gymraeg gyflawn i bob disgybl a thrwy hynny gwneud yn siŵr fod pawb yn cyrraedd y safonau uchaf posib yn ôl eu gallu a'u talentau. Fe wnawn ni hyn mewn awyrgylch sydd yn cynnal ac yn parchu disgyblion fel unigolion.

Mae'n rhaid i bob disgybl gytuno i ddilyn Gwerthoedd o Barch, Cymreictod a Dyfalbarhad yr ysgol.

Gweler isod gopi o gytundeb cartref-ysgol a rheolau a siartr ymddygiad yr ysgol.

Cytundeb Cartref/Ysgol

"DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD"

Rhieni yw athrawon cyntaf a pharhaol plentyn. Rydych yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynorthwyo ein disgyblion – eich plant – i ddysgu. Byddent yn cyflawni mwy pan fyddwn ni – yr ysgol a chi – yn gweithio gyda'n gilydd. Teimlwn y bydd yn haws llwyddo drwy gytuno ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl o'n gilydd. Mae'r cytundeb cartref/ysgol yma yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu y bartneriaeth yma.

Ein Cenhadaeth i'r Disgybl

Nod yr ysgol yw cynnig Addysg Gymraeg gyflawn i chi a thrwy hynny gwneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd y safonau uchaf posibl yn ôl eich gallu a'ch talentau. Fe wnawn ni hyn mewn awyrgylch sy'n eich cynnal ac sydd yn eich parchu chi fel unigolyn.

Ein Cenhadaeth i'r Rhiant

Gwerthoedd yr ysgol yw Parch, Cymreictod a Dyfalbarhad. Tra'n gweithio i sicrhau ein cenhadaeth i'r disgybl fe ymrwymwn i'ch cynnwys chi fel partner yn ein hymdrechion ac i gyfathrebu â chi yn glir ac yn onest yn ôl yr angen.

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus gyda'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac bydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Rydym yn derbyn, parchu a dathlu gwahniaeth.





Courtesy and Good Behaviour

It is our aim to create a happy and successful school in which all students are able to learn and develop to their full potential. They can therefore expect to be valued and respected as individuals, to be treated with fairness and understanding and praised for effort. We welcome and encourage the involvement of parents and members of the community to enrich and improve education for all.

Students must be prepared to follow the values of respect, welshness and perseverance.

Home/School Agreement

“PUT YOUR HAND IN MINE AND I’LL TAKE YOU TO THE MOUNTAIN TOP”

Parents are a child’s first and continuing teachers. You play a key role in assisting our pupils – your children – to learn. They will achieve more when we work together. We feel that it would make it easier to succeed if we agreed on what we expect from each other. The home/school agreement provides a framework for developing this partnership.

Our Mission to the Pupil

The aim of the school is to offer you a comprehensive education through the medium of Welsh and ensure that you achieve the highest possible standards according to your ability and talents. We will do this in an

environment which offers you support and respects you as an individual.

Our Mission to the Parent

The school values are Respect, Welshness and Perseverance. Whilst working to ensure that we carry out our mission to the pupil we agree to involve you as a partner in our efforts and to communicate clearly and honestly as required.

By cooperating and trusting in each other we aim to ensure that each pupil reaches the peak of their ability and talents. We shall do so by offering opportunity, support and guidance within a positive, safe and civilised environment.

Our Vision for our Pupils

We aim to develop pupils who are fluent in Welsh and English and who are proud of the traditions and inheritance of their locality and their country. We aim to develop balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and who are comfortable with themselves. They will have a respect for their minds, their souls and their bodies and they will have wide horizons and a curiosity for new information. They will have the necessary skills to take advantage of the challenge of the future work place and society and they will wish to continue to grow as lifelong learners and world citizens.

We accept, respect and celebrate differences/ diversity.

Datganiad Cenhadaeth [darpariaeth]

Credwn mai drwy ddarparu’r canlynol y bydd ein disgyblion yn gwireddu ein cenhadaeth ar eu cyfer:

- Cwricwlwm eang a heriol
- Rhaglen gyfoethog o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol
- Amgylchedd addysgu ysgogol
- Adnoddau dysgu cyfoethog ac amrywiol
- Addysgu safonol a dyfeisgar
- Agwedd ymchwiliol i ddysgu ac addysgu
- Ethos o gynhaliath, herio cyflawniad ac anogaeth
- Partneriaeth iach rhwng yr ysgol, y cartref a’r gymuned

Yn ogystal fe amlygwn ein hymrwymiad i weithio fel cymuned ddysg drwy:

- Anelu at gwelliant parhaus ymhopeth a wnawn
- Cydweithio tuag nodau cyffredin
- Buddsoddi yn ein pobl
- Rheolaeth agored, gadarn ac effeithiol

Ymrwymiad yr Ysgol

Fe welwch o’n cenhadaeth a’n hamcanion ein bod am sicrhau hawl pob plentyn i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch dymunol, ddiogel a threfnus. Ymrwymwn i ymateb i unrhyw orchmynion statudol sy’n berthnasol i ofynion addysgol eich plentyn mewn modd ystyrlon ac effeithlon. Byddwn yn cynllunio i sicrhau y safonau uchaf posibl o fewn yr ysgol ac yn monitro a hunan arfarnu er mwyn sicrhau llwyddiant cynyddol ein gweithgareddau. Mynegwn ein syniadau a’n hegwyddorion ym mholisiau amrywiol yr ysgol sydd ar gael i chi eu darllen ac hefyd ym mhrospectws yr ysgol. Cewch gyfle fel rhieni i drafod unrhyw fater yn ymwneud â’r ysgol drwy fynychu cyfarfodydd rhieni ac hefyd drwy gysylltu yn uniongyrchol â’r ysgol.

Ymrwymiad y Rhiant

Rwyf yn ymrwymo i sicrhau fod fy mhleintyn yn mynychu’r ysgol yn brydlon a rheolaidd er mwyn derbyn addysg amser llawn priodol a byddaf yn eich hysbysu os na fydd modd

i’m plentyn fod yn bresennol. Ymrwymaf i gydweithio â’r ysgol wrth ymgynraedd tuag eich cenhadaeth a’ch amcanion. Rwy’n cydnabod fod gennyf gyfraniad hanfodol i’w wneud wrth feithrin ymddygiad da ac i gydweithio â’r ysgol yn eich nod o greu awyrgylch cynhaliol sydd yn meithrin parch tuag at yr unigolyn, ac hefyd i osod disgwyliadau uchel wrth anelu i ddatblygu potensial pob disgybl yn llawn.

Rhan bwysig o hyn yw hyrwyddo ac annog defnydd o’r Gymraeg gan fy mhleintyn.

Ymrwymiad y Disgybl

Rwyf yn ymrwymo i wneud fy ngorau ac ymateb yn bositif i gyngor yr athrawon ac i ddefnyddio’r Gymraeg yn yr ysgol cymaint â phosibl. Rwy’n derbyn y gwerthoedd o Barch, Cymreictod a Dyfalbarhad, ac yn sylweddoli fod gen i gyfraniad pwysig i’w wneud at awyrgylch Gymraeg a chynhaliol yr ysgol. Rwy’n cydnabod fod gen i hawliau ond hefyd ei bod hi’n bwysig parchu hawliau unigolion eraill hefyd.



Mission Statement [provision]

We believe that through providing the following our pupils will fulfil our vision for them:

- A wide and challenging curriculum
- A rich programme of extra-curricular visits and activities
- An inspirational teaching environment
 - A rich variety of learning materials
 - High quality and innovative teaching
 - An investigative attitude to teaching and learning
 - A supportive ethos which challenges achievement and provides encouragement.
- A healthy partnership between the school, the home and the community.

In addition we emphasise our commitment to working as a learning community by

- Striving for continuous improvement in everything that we do
- Cooperating towards a common goal
- Investing in our people
- Open, firm and effective management:

The School's Commitment

As you can see from our mission and our aims, we wish to ensure every child's right to be educated in a pleasant, safe and orderly environment. We are committed to responding to any statutory requirements relevant to the educational needs of your child in a considerate and efficient way. We will plan to ensure the highest possible standards within the school and undertake monitoring and self-evaluation in order to ensure the continuous success of our activities. We will express our ideas and principles in the school's various policies which are made available to you and also in the school's prospectus. You will have an opportunity, as parents, to discuss any issue involving the school by attending meetings and through direct contact with the school.

The Parent's Commitment

I am committed to ensuring that my child attends school punctually and regularly in order to receive appropriate full time education and will inform you if my child cannot attend. I am committed to working with the school in striving to achieve your mission and objectives. I acknowledge that I have an essential contribution to make in fostering good conduct and in co-operating with the school to meet your aim of creating a supportive environment which promotes a respect for the individual, and in setting high expectations with the aim of developing the full potential of each pupil. An important element of this is to promote and encourage the use of Welsh by my child.

The Pupil's Commitment

I am committed to doing my best and to respond positively to the teachers' advice and to use Welsh as much as possible in the school. I accept the school values of Respect, Welshness and Perseverance and realise that I have an important contribution to make towards the Welsh language and the supportive environment in school. I acknowledge that I have rights but that it is also important to respect the rights of other individuals.

Disgwyliadau

Yn ein dosbarthiadau rydym yn disgwyl i ddisgyblion:-

- I gyrraedd yn brydlon gyda'r offer angenrheidiol
- I barchu hawl pawb i gael llonydd a chware teg
- I aros wrth eich desg a gwneud yr hyn mae'r athro am i chi wneud
- I wneud eich gorau wrth gwblhau'r gwaith
- I gwblhau'r gwaith cartref yn llawn ac mewn amser

Yn yr ysgol rydym yn disgwyl i bawb:-

- I siarad Cymraeg bob tro
- I barchu eiddo a hawliau ein gilydd
- I barchu amgylchedd yr ysgol
- I gerdded ar y chwith
- I ddilyn rheolau yr ysgol

Yn yr ysgol rydym yn disgwyl i'r athrawon:-

- I gyrraedd gwersi ar amser
- I barchu a gwrandao ar y disgyblion
- I gynnig cymorth pan fo angen
- I baratoi yn ofalus a bod yn drefnus
- I farcio gwaith cartref yn brydlon

Expectations

In our classes we expect pupils:-

- To arrive on time with the necessary equipment
- To respect everyone's right to have peace and quiet and fairness
- To stay at your desk and do what the teacher asks of you
- To do your best when completing work
- To complete homework in full and on time

In the school, we expect everyone:-

- To speak Welsh at all times
- To respect the property and rights of one another
- To respect the school environment
- To walk on the left
- To follow the school's rules

In the school we expect the teachers:-

- To arrive at lessons on time
- To respect and listen to pupils
- To offer support when necessary
- To prepare carefully and to be organised
- To mark homework promptly



Rheolau Ysgol

Cwrteisi

- Siaradwch yn gwrtais gyda staff, disgyblion ac ymwelwyr.
- Cofiwch ddal drysau a chynnig help i bawb.

Ar y Bws

- Eisteddwch yn eich sedd trwy gydol y daith.
- Peidiwch byth â sefyll ar eich traed tra bo'r bws yn teithio.
- Ar ddiwedd y dydd os nad yw eich bws wedi cyrraedd arhoswch yn drefnus ar y palmant.
- Wrth adael y bws sicrhewch ei bod hi'n ddiogel i groesi'r ffordd ar ôl i'r bws adael.
- Os ydych yn torri rheolau diogelwch teithio ar fws ysgol yna bydd yr ysgol yn cysylltu â'ch rhieni i wneud trefniadau eraill i'ch cludo yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ddyddiol

Yn y Coridorau

- Pan fyddwch yn cyrraedd yr ysgol sicrhewch eich bod yn defnyddio y fynedfa briodol ac nid drysau blaen yr ysgol.
- Cerddwch ar y chwith gan gadw'ch bagiau wrth eich ochr.
- Arhoswch mewn rhes drefnus y tu allan i bob ystafell ddysgu gan ddisgwyl caniatâd eich athro neu athrawes cyn mynd i mewn i'r dosbarth.

- Peidiwch â gadael eich bagiau na'ch cotiau yn y coridor.

Yn y Gwasanaeth

- Gadewch eich cotiau a'ch bagiau yn eich ystafell gofrestru.
- Cerddwch i mewn i'r gwasanaeth yn dawel ac yn drefnus ac eisteddwch fesul dosbarth cofrestru.
- Parchwch naws y gwasanaeth gan wrando'n dawel heb siarad nac anesmwytho.
- Gadewch y neuadd yn dawel a threfnus.
- Ewch allan o'r adeilad yn syth ar ôl gadael y ffreutur.

Yn yr Ystafell Ddosbarth

- Peidiwch â mynd i mewn i'r ystafell ddysgu heb ganiatâd athro neu athrawes.
- Ym mhob gwrs disgwylir i chi fynd i mewn yn dawel, sefyll y tu ôl i'ch desg, tynnu eich offer o'ch bag heb ffwdan ac aros am ganiatâd yr athro neu athrawes cyn eistedd.
- Disgwylir i chi siarad Cymraeg ym mhob gwrs ar wahân i'r gwrsi Saesneg ac Ieithoedd Modern.
- Sefwch ar eich traed yn dawel ar ddiwedd y wers i ddisgwyl caniatâd eich athro neu athrawes cyn gadael.
- Peidiwch ag oedi yn y coridor rhwng gwrsi, gallwch ddefnyddio'r tai bach yn ystod egwyl ac amser cinio.
- Os daw ymwelydd i'r wers sefwch ar eich traed yn dawel.

Amser egwyl a chinio

- Arhoswch mewn rhes drefnus y tu allan i'r ffreutur.
 - Dilynwch system un ffordd yr ysgol.
 - Disgwylwch am ganiatâd cyn ffurfio rhes y tu mewn i'r ffreutur ar hyd ochr y wal bellaf.
 - Ar ôl archebu bwyd eisteddwch o gwmpas un o'r byrddau.
 - Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y bwrdd



yn lân cyn i chi adael gan ddychwelyd yr hambwrdd i'r man priodol.

- Taflwch unrhyw sbwriel i'r biniau priodol.
- Ni chewch fynd â bwyd na diod allan o'r ffreutur.
- Ewch allan o'r adeilad yn syth ar ôl gadael y ffreutur.

Yn ystod tywydd gwael

- Dylech ddefnyddio'r ffreutur yn ystod amser egwyl a chinio.
- Ni chewch ddefnyddio'r coridorau fel lle i gysgodi.
- Parchwch yr amgylchedd gan roi sbwriel yn y biniau.

Bwlio

- Ni dderbynnir bwlio yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.
- Dywedwch wrth athro, neu ffrind yn syth.

School Rules

Courtesy

- Always speak politely to staff, pupils and visitors
- Remember to open and hold doors and be helpful to others

On the Bus

- Sit down throughout the journey
- Do not stand up when the bus is moving
- If your bus is late at the end of the day, wait in an orderly manner on the pavement
- When leaving the bus check that it is safe to cross the road
- If you fail to follow these rules your parents will be contacted and alternative travel arrangements will have to be made

In the Corridors

- When arriving at school use the correct entrance, not the main entrance at the front of the school
- Always walk on the left with your bags by your side
- Wait quietly in a line outside the classroom until your teacher gives you permission to enter the room
- Do not leave your coats or bags in the corridors





In Assembly

- Leave your bags and coats in the classroom
- Walk quietly and in line to the hall
- Sit in your form group
- Listen carefully without talking to maintain the ethos of the assembly
- Leave the hall quietly and in line

In the classroom

- Do not enter the classroom without the teacher's permission
- You are expected to enter the classroom quietly, stand behind your desk, take the necessary equipment out of your bag and wait for the teacher to tell you to sit down
- You are expected to speak Welsh in all lessons except in English and Modern Languages
- At the end of the lesson stand quietly until the teacher gives you permission to leave
- Be punctual to your next lesson. You can use the toilet at breaktime and lunchtime.
- If a visitor/teacher comes into the classroom, stand up quietly

Break and Lunch time

- Stand quietly outside the canteen
- Follow the schools' one way system
- Wait for permission before moving from the queue outside the canteen.
- Eat food sat at a table.
- It is your responsibility to clear away your tray and to make sure the table is clean
- Place any rubbish in the bins provided
- No food or drink is allowed to be taken out of the canteen

Wet weather

- You should use the canteen during break and lunch times
- You are not allowed to use the corridors as places of shelter.
- Respect the environment and put all rubbish in the bins

Bullying

- Bullying is not acceptable in Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
- Tell a friend or teacher straight away.

Presenoldeb yn yr Ysgol

Mae presenoldeb cyson pob disgybl yn yr ysgol yn holl bwysig. Can fod absenoldeb yn amharu ar gynnydd disgybl, mae'r ysgol yn awyddus i sicrhau cyfradd presenoldeb uchel.

Er lles a diogelwch eich plentyn, gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol cyn 9 o'r gloch y bore os ydy disgybl yn absennol o'r ysgol.

Rydym yn categorio absenoldeb disgyblion fel a ganlyn:

Absenoldeb gyda chaniatâd

Mae'r ysgol yn caniatáu i ddisgybl fod yn absennol ar gyfer:

- Apwyntiad meddygol/deintyddol
- Profedigaethau teuluol
- Cyfweiliadau
- Dyddiau gwyl crefyddol

Absenoldeb heb ganiatâd

Nid yw'r ysgol, fel arfer, yn barod i ganiatáu absenoldeb am y rhesymau canlynol:

- Gwarchod brodyr/chwirydd
- Gofalu am y tŷ
- Siopa
- Ymweliadau preifat yn ystod oriau ysgol
- Cyrraedd yn hwyr heb reswm dilys

Attendance at School

Regular attendance at school is vitally important. As absenteeism hinders the pupil's progress, the school is eager to ensure a high rate of attendance.

In the interests of your child's safety and welfare, parents are asked to contact the school before 9am if their child is absent.

The absence of pupils is categorised as follows:

Absence with permission

The school permits pupils to be absent for:

- Medical/dental appointments
- Family bereavements
- Interviews
- Religious festival days

Absence without permission

The school does not, as a rule, permit absence for the following reasons:

- Looking after brothers/sisters
- Looking after the house
- Shopping
- Private visits during school hours
- Arriving late without a valid reason



Disgyblaeth Gadarnhaol

Sail disgyblaeth effeithiol yw cyd-berthynas tair ochrog rhwng y disgybl, yr ysgol a rhieni. Mae polisi disgyblaeth yr ysgol yn un cadarnhaol gyda'r amcan o sefydlu patrwm o hunan-ddisgyblaeth.

Hanfod disgyblaeth gadarnhaol yw

- ymddygiad y disgyblion
- cynorthwyo'r disgyblion i weithio'n galed er mwyn cyrraedd safon uchel ac agwedd gadarnhaol tuag at werthoedd yr ysgol:

- » Parch
- » Cymreictod
- » Dyfalbarhad

Gofynnwn am gydweithrediad llawn i rieni sicrhau bod eu plant

- » Yn arddel safonau uchel o ymddygiad
- » Yn anelu at wneud eu gorau
- » Yn bresennol yn yr ysgol
- » Yn brydlon
- » Yn gwisgo'r wisg swyddogol
- » Yn gwneud gwaith dosbarth a gwaith cartref

Golyga hyn hefyd bod rhieni yn

- arwyddo'r Dyddiadur Gwaith Cartref yn wythnosol
- mynychu'r Cyfarfodydd Rhieni i drafod gwaith eu plant

Positive Discipline

The basis of effective discipline is a tripartite relationship between pupil, school and parents. The school's discipline policy adopts a positive approach aimed at establishing a pattern of self-discipline.

Positive Discipline is about:

- Pupils' behaviour
- Helping pupils to work hard for success and achievement towards our school values:
 - » Respect
 - » Welshness
 - » Perseverance

We ask for the full co-operation of parents in ensuring that children

- » Have a high standard of behaviour
- » Strive to do their best
- » Attend regularly
- » Are punctual
- » Wear the correct uniform
- » Do their classwork and homework

It also involves ensuring that parents

- Sign the Homework diary weekly
- Attend parents' meetings to discuss their children's work

Y Gyfundrefn Wobrwyo

Arbor

Bydd rhieni neu ofalwyr yn gallu defnyddio Arbor i gadw golwg ar ymddygiad eich plentyn, gweld cofnodion presenoldeb, cael mynediad at ei amserlen wythnosol, a gweld cyhoeddiadau o'r ysgol.

Gellir cael mynediad at Arbor i rieni trwy y gwefan, neu trwy apps iOS ac Android.

Y Gyfundrefn Clod A Diffyg Ymdrech

Fe weithredwn y system yma er mwyn gwobrwyo a hyrwyddo disgyblion sydd yn cyrraedd y disgwyliadau uchel. Manteision y system yw:-

- bydd disgybl yn derbyn gwobr ar unwaith oddi wrth athro sydd yn cydnabod gwaith da.
- gall athro wobrwyo disgybl o flaen ei gyd-ddisgyblion
- gall athro pwnc atgyfnerthu'r safonau sydd yn dderbyniol yn y dosbarth
- mae'r system yn hyrwyddo adborth cyflym ar waith dosbarth a gwaith cartref y disgybl a ddylai felly ei ysgogi i gynnal a chodi safonau ei waith.

Gwobrwyo

- gwaith sydd yn unol â gwerthoedd yr ysgol.
 - canlyniad prawf neu asesiad lle mae'n amlwg bod y disgybl wedi ymdrechu i adolygu'r gwaith
 - cwblhau gwaith cartref yn brydlon, gwaith cywir a chywrain y tu hwnt i'r safon a ddisgwylir
 - gwaith ymarferol sydd o safon uchel neu dystiolaeth o baratoi a chynllunio
 - cyflwyno gwaith cwrs yn brydlon ac yn unol â photensial llawn disgybl
 - codi a chynnal safonau mewn pwnc
- Disgwylir i'r Adrannau lunio ac arddangos y meini prawf yn yr ystafell ddisbarth. Rhaid cofio mai'r nŵd yw i wobrwyo ymdrech yn ogystal â chyrraedd.

Fe fydd pob Adran yn nodi'r meini prawf sydd yn berthnasol iddynt hwy.

Ni ddylid gwobrwyo pwyntiau clod am y canlynol

- gwaith cartref sydd yn brydlon ond heb ei gwblhau
- gwaith dosbarth sydd wedi ei gwblhau ond sydd yn dangos ôl diffyg ymdrech



- gwaith sydd o safon ond heb ei gyflwyno'n brydlon

Byddwn hefyd yn gwobrwyo disgyblion yn dilyn ein gwerthoedd.

Cymreictod: Am ddefnydd hyderus a chyson o'r Iaith ac hyrwyddo'r Iaith lle bo'n bosib.

Parch: Am ddangos parch at eraill, eu hunain ac at waith yn gyffredinol.

Dyfalbarhad: Am wneud ymdrech barhaus a chyson i wella cynnydd neu berfformiad a dal ati i'r eithaf.

Diffyg Ymdrech:

Bydd yr athro yn medru tynnu sylw rhieni at ddiffyg ymdrech neu ymddygiad anfoddhaol drwy roi nodyn ar Arbor.

Mae cydweithrediad y rhieni yn hanfodol yma.

Parch
Cymreictod
Dyfalbarhad





Arbor

Parents or carers will be able to use Arbor to keep track of your child's behaviour, view attendance records, access their weekly timetable, track scheduled detention and view announcements from the school.

Arbor for parents can be accessed via the website or through iOS and Android apps.

The System Of Praise And Lack Of Effort

We operate Arbor in order to reward and promote pupils who demonstrate high standards of the school values. The benefits of the system are:-

- the pupil will be rewarded immediately by a teacher who recognises good work, or a particularly praiseworthy effort.
- a teacher can reward a pupil in front of their classmates
- a subject teacher can reinforce the standards that are acceptable in the classroom
- Arbor promotes quick feedback on pupils' classwork and homework and this should stimulate them to maintain and raise the standards of their work.
- Arbor provides feedback to parents.

Awarding Praise Points

- work which is in accordance with the pupil's full potential
- the result of a test or assessment where it is clear that the pupil made an effort to revise the work
- completing homework on time and accurate work beyond the expected standard
- practical work of a high standard or

evidence of preparation and planning

- presenting coursework on time and in accordance with the pupil's full potential
- raising and maintaining standards in a subject
- demonstrating the school values.

Subject specific criteria will be displayed in the classrooms. The aim is to reward effort as well as attainment.

Every Department will note the criteria that are relevant to them.

Positive points should not be awarded for the following

- homework that is on time but is incomplete
- classwork that has been completed but shows a lack of effort
- work that is of a good standard but that is not presented on time

We will also reward pupils with points for values!

Cymreictod: This awards pupil's attitudes towards the language

Parch: This is for showing respect to others and to themselves and their work generally.

Dyfalbarhad: For making a continuous and consistent effort to improve progress or performance and to keep persevering.

Lack of effort:

Teachers will be able to draw attention to lack of effort by writing a note in the diary for parents.

The cooperation of parents here will be very important.

Y Rhieni a'r Ysgol

Ein nod yw sefydlu perthynas dda a chyfeillgar rhwng yr ysgol a rhieni ein disgyblion. Ystyriwn gydweithrediad gyda rhieni yn allweddol i lwyddiant a hapusrwydd pob disgybl.

Parents and the School

Our aim is to establish a good, friendly relationship between parents and the school. Co-operation is seen as an essential means of securing the happiness and the success of every child.

Yr Iaith Gymraeg

Gofynnwn i rieni gefnogi'r Gymraeg. Gan gofio mai dyma un o hanfodion yr ysgol, dylai plant wyllo rhaglenni teledu Cymraeg, darllen llyfrau Cymraeg, ac yn bennaf, siarad yr iaith ar bob achlysur posib. Mae anogaeth a chydweithrediad rhieni yn hyn yn gwneud gwahaniaeth positif i agwedd plant.

The Welsh Language

We ask parents for their support of the Welsh language. As this is so important to your child's success they should watch Welsh television, read Welsh books and most of all take advantage of every opportunity to speak Welsh. The co-operation and help from parents has a positive effect on children's attitudes.



Urdd



menter caerdydd



Salwch neu Ddamwain yn yr Ysgol

Os bydd disgybl yn sâl yn yr ysgol byddwn yn cysylltu â rhieni i'w casglu os credwn fod hynny'n angenrheidiol. Os caiff disgybl ddamwain yn yr ysgol a bod angen mynd i'r ysbyty, byddwn yn cysylltu â'r rhiant yn y lle cyntaf. Os yw'n amhosib i riant fynd â'r plentyn yno bydd athro neu aelod penodedig o'r staff yn mynd ag ef/hi i'r ysbyty.

Dim ond mewn argyfwng y bydd caniatad i ddisgyblion ddefnyddio ffôn yr ysgol.

Illness or Accident at school

If the pupil is taken ill at school parents are contacted in order for them to collect him/her if thought necessary. If a pupil has an accident at school and a hospital visit is thought necessary, parents will be contacted at the first available opportunity. If it is impossible for a parent to make the journey a teacher or delegated member of staff will take the pupil to hospital.

Children will only be allowed to use the school telephone in an emergency.

Meddyginiaeth

Nid yw'r ysgol yn darparu tabledi lliniaru poen. Gofynnir i rieni gysylltu â'r ysgol pan fo angen i ddisgybl gymryd meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol. Dylid trosglwyddo unrhyw feddyginiaeth i'w chadw yn ddiogel yn swyddfa'r Pennaeth Blwyddyn ac fe'i rhoddir i'r disgybl dan arolygiaeth.

Medication

The school does not administer medication such as painkillers. Parents are asked to contact the school should the pupil require medication during the school hours. Any such medication should be placed in the Head of Year's office for safekeeping and will be given to the pupil under supervision

Cysylltu â'r ysgol

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn allweddol. Os dymunwch drafod unrhyw fater â'r ysgol, croesawn i rieni gysylltu â ni ar y ffôn neu drwy ymweld â'r ysgol. Er mwyn sicrhau trefn effeithiol, gofynnwn i rieni ffonio'r ysgol i siarad a'r Tiwtor Dosbarth neu Bennaeth Blwyddyn yn y lle cyntaf. Os oes gan rieni gŵyn yn ymwneud â'u plentyn a'r ysgol, gofynnwn iddynt gysylltu yn gyntaf a'r Pennaeth Blwyddyn berthnasol, yna os oes problem ymhellach, â'r Pennaeth Cynorthwyol. Os na ddaw ateb boddhaol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac yna â Chadeirydd y Bwrdd Llywodraethu os pery'r anfodlonrwydd hoffwn bwysleisio y dylech gysylltu â'r ysgol yn gyntaf, gan mai fel hyn y datrysir y mwyafrif o broblemau.

Contacting the school

Open and effective communication between school and home is extremely important. If you have any matter that needs discussing with the school, please contact us either by telephone or by visiting the school. In the first instance, we ask parents to telephone the school and speak to the Form Tutor or Head of Year. If parents have a complaint regarding their child and the school, they should contact the relevant Head of Year. If there is a further problem, the Assistant Headteacher should be notified. If parents are still not satisfied the Head should be contacted, and then the Chairman of the Board of Governors if they continue to feel dissatisfied. We would like to stress the importance of contacting the school initially, this is how the majority of problems are resolved.



Gwasanaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Trefnir gwasanaeth dyddiol, byr, anenwadol ond Cristnogol fel gweithred o gydaddoliad. Dylai unrhyw riant na fyn i blentyn ymuno yn hwn roi gwybod i'r ysgol trwy lythyr.

Dysgir Athroniaeth, Crefydd, a Moeseg yn ôl gofynion y Cwricwlwm.

Assemblies and Religion, Values and Ethics

Assembly consists of a short non-denominational Christian-based act of worship. Any parent wishing their child not to take part on religious grounds should inform the school in writing. The importance of Christianity to Welsh traditions is emphasised and assembly is considered an important part of pupils' education.

Philosophy, Religion and Ethics is taught in accordance with the Curriculum.

Iechyd a Lles

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar yr uchod. Fe'i dysgir fel rhan o'r cwricwlwm wedi ei amserlenni a hefyd ym mywyd dyddiol eich plentyn. Cynigir addysg rhyw fel rhan o'r cwrs. Cyflwynir hyn mewn modd gwrthrychol, cytbwys a sensitif wedi'i osod o fewn fframwaith clir o werthoedd. Mae copi o'r polisi rhyw ar gael i'w ddarllen yn yr ysgol.

Health and Wellbeing

The school places considerable importance on personal, social, moral and health education. Learning in these areas is timetabled as part of the curriculum, and the day-to-day life of the school.

It is the school's legal responsibility to provide sex education. It is presented in an objective, balanced and sensitive manner within a clear framework of values. It is the duty of the school to inform parents that this is taking place. If you wish to read the sex education policy a copy is available from the school.

Offer

Bydd yr offer canlynol yn ddefnyddiol i yrfa ysgol pob disgybl:

- Pren mesur, pensil, dilëydd, onglydd a chwmpawd
- Cyfrifiannell
- Geiriadur Cymraeg a Thesawrws
- Geiriadur Saesneg a Thesawrws
- Geiriadur Ffrangeg
- Pensiliau lliw
- **Gwaherddir defnyddio piniau ffelt a phapur hylif (e.e. Tippex) yn yr ysgol**

Equipment

The following will be useful for you child's school career:

- Ruler, protractor, pencil, rubber and compass
- A selection of coloured pencil
- A pencil sharpener
- Calculator
- Welsh dictionary: Pocket Modern Welsh Dictionary and Thesaurus
- English dictionary and Thesaurus
- French dictionary
- **The use of felt pens and liquid corrector (e.g. Tippex) are prohibited in school.**

Eiddo personol

Apeliwn at rieni i sicrhau bod enw yn cael ei osod ar bob eitem o eiddo disgybl. Gofynnir i ddisgyblion i beidio â dod ag eitemau gwerthfawr gyda nhw i'r ysgol. Nid ydym yn annog y disgybl i ddod â ffôn symudol gyda ef/hi ond yr ydym yn deall fod rhai disgyblion eu hangen o safbwynt diogelwch wrth iddynt gerdded i ac o'r ysgol. Felly disgwylir iddynt fod yn y bag ac wedi ei droi i ffwrdd. Os gwelir unrhyw ffôn yn yr ysgol fe fydd y disgybl yn derbyn rhybudd gan yr athro. Os digwydd hyn eto yna fe fydd y Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu â'r rhieni.

Personal property

All property brought to school must be marked clearly with the owner's name. The school can take no responsibility for such property. Students are asked not to bring valuable items to school. Mobile phones are not encouraged, but we understand that some students may want them as a safety measure on the way to and from school. Therefore, if brought in, they should be switched off and kept in a bag. If a mobile phone is seen in school the phone will be placed in reception where it can be collected at the end of the day.





Adran Cynnal Dysgu

Mae'r Adran Cynnal Dysgu yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn amrywiaeth o ffyrdd. Ceir amrywiaeth o raglenni ymyrraeth am gyfnodau penodol i gefnogi llythrennedd a rhifedd. Drwy gydweithio'n agos â chydlynwyr ADY ein ysgolion cynradd, sicrhawn bod anghenion dysgu ein disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar yn ystod Blwyddyn 7.

Learning Support Department

The Learning Support Department supports pupils with Additional Learning Needs (ALN) in a variety of ways. By working closely with our primary schools, we aim to identify ALN early in order to begin planning any necessary interventions. We have several shorter-term intervention programmes to support literacy and numeracy.

Eiddo coll

Bydd unrhyw eiddo coll yn cael ei gadw yn y Dderbynfa. Os daw disgybl o hyd i eiddo coll dylid ei roi yn y swyddfa.

Lost property

Lost property is kept in Reception. Should any pupil find an item of lost property, he/she should take it to the office.

Cludiant i'r ysgol

Trefnir cludiant rhad gan Awdurdod Addysg y Sir i bob disgybl sydd yn byw dros dair milltir o'r ysgol ac o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Rhoddir gwybodaeth i rieni ynglŷn â manylion y trefniadau a wneir. Os cyfyd problemau ynglŷn â chludiant, gall rieni gysylltu â'r Awdurdod Addysg.

Rydym yn disgwyl yr un safonau uchel o gwrteisi, ymddygiad a pharch tuag eraill wrth deithio ar y bws ysgol.

Transport to school

The County Education Authority arranges free transport for every pupil living over three miles from the school and within its official catchment area. Information will be sent out to parents giving details of arrangements made. The buses will be in the car park on the school premises to pick up and set down pupils. If problems should arise with transport, parents may contact the Education Authority.

The same high standard of behaviour, courtesy and respect for others is also expected on the school bus.

Gollwng a Chasglu Disgyblion

Mae safle rhieni i ollwng a chasglu disgyblion yn y maes parcio. Os oes angen i'ch plentyn adael yr ysgol ar unrhyw achlysur yn ystod oriau'r ysgol fe fydd rhaid i chi gasglu eich plentyn o'r dderbynfa yn unol â chanllawiau iechyd a diogelwch.

Setting Down and Collection of Pupils

Parents drop off point in the morning and collection of pupils in the evening is situated in the main car park. However, if your child needs to leave school for any reason during school hours you must personally collect your child from reception in accordance with health and safety regulations.



Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae agweddau cymdeithasol yr ysgol yn bwysig am sawl rheswm

- Yn bennaf i gynnig cyfle i ddisgyblion 'fyw'r Gymraeg' a gloywi iaith wrth ei defnyddio mewn sefyllfaoedd amrywiol.
- Er mwyn datblygu holl agweddau cymeriad a phersonoliaeth y disgybl wrth gynnig profiadau a hybu sgiliau cymdeithasol y tu hwnt i bedair wal y dosbarth.
- Er mwyn rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn gyhoeddus neu yn gystadleuol (e.e. chwaraeon, cyngherddau, dramâu a.y.y.b)
- Er mwyn dod yn rhan o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru wrth gymryd rhan mewn Eisteddfodau ac achlysuron lleol a chenedlaethol eraill.

Trefnir nifer o weithgareddau amrywiol tu hwnt i oriau gwersi yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Cynigir cyfle i bawb ymwneud â'r rhain. Mae'n ffaith mai po fwyaf o amser y treulia plentyn yn siarad Cymraeg, y gorau y bydd ei f/meistrolaeth o'r iaith.

Extra Curricular Activities

The social aspects of school life are important for several reasons:

- Primarily, to provide an opportunity for pupils to experience 'living through Welsh': extending their ability in the language by using it in a variety of situations.
- To develop all facets of the pupil's character and personality through providing experiences and encouraging social skills outside the confines of the classroom.
- To offer an opportunity for children to take part in a number of activities both public and competitive e.g. sports, concerts, plays etc.
- To share in the culture and traditions of Wales by participating in Eisteddfodau and other local national events.

Many varied activities are organised outside lesson times during the lunch hour and after school. Every child has the opportunity to participate in these. It is a proven fact that the greater time a child spends speaking Welsh, the better will be his/her mastery of the language.



Polisi Gwrth-Fwlio

Ein nod yw gwneud Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ysgol ddiogel a hapus i bob disgybl. Hyderwn ein bod yn ysgol sy'n anelu at greu ethos ac awyrgylch lle y rhoddir parch i'r unigolyn yn ôl ein cenhadaeth. Gellir ystyried bwlio i fod yn ymddygiad sydd yn fwriadol yn gwneud i'r person arall deimlo'n anhapus, a hynny, gan amlaf dros gyfnod o amser. Gall gynnwys cam drin corfforol neu eiriol am deulu, crefydd, hil neu rhywioldeb.

Beth ddylai disgybl ei wneud?

Mae gan bob un ohonoch ddyletswydd i atal bwlio.

Os ydych yn cael ei eich bwlio, neu os ydych yn gweld rhywun yn cael ei fwlio:

- Dylech siarad gyda rhywun (athro, ffrind, rhieni)
- Ymddiried yn staff yr ysgol i ddelio gyda'r sefyllfa

Beth ddylai athro ei wneud?

- Bod yn barod i wrando
- Cofnodi ffeithiau'n ysgrifenedig.
- Cyfweld â'r unigolion berthnasol i gasglu'r ffeithiau.
- Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu â rhieni i drafod y mater ymhellach a threfnu cytundeb ar strategaethau.

Beth yw rôl y rhieni?

- Cysylltu â'r ysgol yn syth os ydych yn meddwl bod eich plentyn yn cael ei fwlio.
- Annog eich plentyn i siarad gyda rhywun os ydynt yn meddwl bod bwlio yn mynd ymlaen yn yr ysgol
- Peidio annog eich plentyn i fwrw nôl neu alw enwau yn ôl ar y bwli.

Mae copi o'r polisi ar gael yn yr ysgol os ydych am ei ddarllen.





Anti-bullying Policy

Everyone at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg has a responsibility to take action to care for each other in order to create and maintain a secure and safe environment at school. Bullying is intentionally making a person feel unhappy over a period of time and can include name-calling, threatening, ignoring or insulting another person or his/her family, religion, race or sexuality.

What students should do?

You have a responsibility to prevent bullying.

If you are being bullied, or you see someone being bullied:

- You should talk to someone {teacher, friend, buddy or parent}
- Trust staff to take appropriate action, remember we want to put a stop to bullying

What staff and other adults employed at the school should do:

- Be prepared to listen to students
- Report the incident to the Head of Year
- Discuss with all pupils involved to gather the facts.
- Head of Year to contact the parents to discuss the incident and agree an action plan.

Parents have a responsibility to:

- Contact the school if you are aware or suspect that bullying is taking place
- Encourage your child to talk to someone if they are aware or suspect that bullying is taking place
- Please do not encourage your child to hit back or retaliate as a resolution.

The school has a written policy on bullying, a copy of which can be obtained on the school website.

Llais Y Disgybl

Eich Ysgol Chi/Eich Barn Chi

Mae pob plentyn ym Mlwyddyn 7 yn cael cyfle i leisio eu barn yn agored mewn sesiynau trafod amser cofrestru. Gellir trafod amryw o bynciau sy'n peri pryder i ddisgyblion neu fynegi eu barn am yr hyn a ddymunant newid o fewn yr ysgol. Mae 2 gynrychiolydd gan bob dosbarth cofrestru sy'n adrodd nól i'r Pennaeth Blwyddyn - yna mae dau o blith y flwyddyn gyfan yn cynrychioli Blwyddyn 7 mewn cyfarfodydd Senedd gyda gweddill y cynrychiolwyr, y Prif Swyddogion, aelodau Staff yr Ysgol a'r Pennaeth. Mae'r ysgol yn credu mewn rhoi cyfle cyfartal i bawb leisio eu barn er mwyn eu paratoi ar gyfer y byd go iawn, lle bydd rhaid iddynt wneud penderfyniadau.

"Drwy leisio eich barn gall pethau newid"

The Pupil's Voice

Your School/Your Views

Every child in Year 7 has the opportunity to voice their opinion openly in discussion sessions held at registration time. Various subjects that cause concern to pupils can be discussed, or opinions can be voiced regarding what they would like to change within the school. Every registration class has two members that feedback to the Head of Year - then two members from within the whole year represent Year 7 in Senedd meetings, together with the remaining representatives, the Senior Prefects, members of Staff and the Head Teacher. The school believes in allowing everyone an equal chance to express their opinion in preparation for the real world, where they will be required to make decisions.

"Things can change if you express your opinion"



Rhestr wirio i rieni

- » Rwyf yn gwybod amcanion yr ysgol ac werthoedd.
- » Rwyf yn gwybod amseroedd ysgol.
- » Cysylltaf gyda'r ysgol os yw fy mhlentyn yn absennol.
- » Rwyf yn deall y trefniadau os yw fy mhlentyn yn mynd ar wyliau yn ystod y tymor.
- » Rwyf yn gwybod â phwy i gysylltu os oes problem yn codi.
- » Rwyf yn gwybod pa offer sydd angen ar fy mhlentyn.
- » Rwyf yn deall y rheolau ynglŷn â'r wisg ysgol gan gynnwys esgidiau a gemwaith.
- » Rwyf yn deall y rheol ynglŷn â ffôn symudol.
- » Rwyf wedi darllen disgwyliadau yr ysgol gyda fy mhlentyn.
- » Rwyf yn derbyn y Cytundeb Ysgol-Cartref ac wedi trafod ymrwymiad y disgybl gyda fy mhlentyn.
- » Byddaf yn hysbysu'r ysgol os yw manylion cyswllt y teulu yn newid.

Checklist for parents

- » I know the school's aims and values.
- » I know the times of the school day.
- » I will telephone the school if my child is absent.
- » I understand the arrangements if my child goes on holiday during term time.
- » I know whom to contact if there is a problem.
- » I understand what equipment to provide for my child.
- » I understand the rules about school uniform, including footwear and jewellery.
- » I understand the rule about mobile phones.
- » I have read with my child the school expectations.
- » I accept the Home-School Agreement and I have discussed the student's section with my child.
- » I will keep the school up to date with any changes to family contact details.

